ATODLEN 1

DEDDFIADAU SY'N GYMWYS I UNEDAU (GYDAG ADDASIADAU NEU HEBDDYNT)

# RHAN 2

## Is-ddeddfwriaeth

### Rheoliadau'r Awdurdod Addysg Lleol (Talu Treuliau Ysgol) 1999

**12.** Mae rheoliad 2 o Reoliadau'r Awdurdod Addysg Lleol (Talu Treuliau Ysgol) 1999(**1**) yn gymwys o ran disgybl sy'n mynychu uned fel y mae'n gymwys o ran plentyn sy'n mynychu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig.

### Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

**13.**—(1) Mae Rhannau 1 a 2 o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006(**2**) yn gymwys o ran unedau fel pe baent yn ysgolion a gynhelir y mae adran 28 o Ddeddf Addysg 2005 yn gymwys iddynt, gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Yn lle'r diffiniad o "awdurdod priodol" yn rheoliad 4(1), rhodder "yr awdurdod addysg lleol".

(3) Yn rheoliad 7(1), hepgorer is-baragraffau (a) i (ch).

(4) Mae rheoliad 7(1)(dd) yn gymwys i unedau fel y mae'n gymwys i ysgolion uwchradd.

### Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

**14.**—(1) Mae Rhan 1 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006(**3**) yn gymwys o ran unedau fel y mae'n gymwys o ran ysgolion y cyfeirir atynt yn rheoliad 3 gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Mae'r ddyletswydd o dan reoliad 4(1) yn ddyletswydd yr awdurdod addysg lleol.

(3) Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "15, 26 a 27";

(b) ym mharagraff (2), hepgorer is-baragraffau (b) ac (c); ac

(c) hepgorer paragraff (3).

(4) Hepgorer rheoliad 6.

(5) Yn rheoliad 7, hepgorer paragraffau (4)(a) a 5.

**15.**—(1) Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hynny yn gymwys o ran unedau fel y mae'n gymwys o ran ysgolion y cyfeirir atynt yn rheoliad 9 gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Yn lle rheoliad 10, rhodder—

"(a) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol sicrhau pryd bynnag y bydd swydd athro neu athrawes â gofal uned yn wag bod person yn cael ei benodi yn athro gweithredol neu'n athrawes weithredol â gofal er mwyn cyflawni swyddogaethau athro neu athrawes â gofal o dan unrhyw ddeddfiad.

(b) Wrth benderfynu os yw person yn addas ar gyfer ei benodi'n athro neu'n athrawes â gofal, neu'n athro gweithredol neu'n athrawes weithredol â gofal uned, rhaid i'r

(**1**) O.S. 1999/1727.
(**2**) O.S. 2006/1714 (Cy. 176).
(**3**) O.S. O.S. 2006/873 (Cy. 81).

awdurdod addysg lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol.".

(3) Hepgorer rheoliad 11.

(4) Yn lle rheoliad 12, rhodder—

"(a) Wrth benodi person i swydd, neu wrth gymryd person ymlaen i weithio mewn dull arall, mewn uned, rhaid i'r awdurdod addysg lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(b) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran swyddi staff cymorth a gwaith staff cymorth fel y mae'n gymwys o ran swyddi addysgu a gwaith athrawon".

(5) Hepgorer rheoliad 13.

(6) Yn lle rheoliad 14, rhodder—

"I'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol i wneud hynny, rhaid i'r awdurdod addysg lleol geisio cyngor yr athro neu'r athrawes â gofal uned, a rhaid iddo ystyried unrhyw gyngor a roddir, cyn gwneud unrhyw benodiad neu ymrwymo i gymryd unrhyw un ymlaen o dan reoliad 12.".

(7) Hepgorer rheoliadau 15 a 17 i 19.

(8) Yn lle rheoliad 16, rhodder—

"(1) Mae gan yr awdurdod addysg lleol a chan yr athro neu'r athrawes â gofal uned y pwer i atal unrhyw berson a gyflogir, neu a gymerwyd ymlaen heblaw o dan gontract cyflogaeth, i weithio yn yr ysgol ac, ym marn yr awdurdod neu (yn ôl y digwydd) ym marn yr athro neu'r athrawes â gofal, y mae angen ei atal.

(2) Rhaid i'r person sy'n arfer y pwer i atal hysbysu'r person arall sydd â'r pwer i atal o dan baragraff (1) ar unwaith.

(3) Dim ond yr awdurdod addysg lleol a all roi diwedd ar ataliad o dan y rheoliad hwn a phan roddir diwedd ar ataliad, rhaid i'r awdurdod hysbysu'r pennaeth ar unwaith.

(4) Yn y rheoliad hwn ystyr "atal" yw atal heb golli tâl.".